**Gwahoddiad i dendro ar gyfer darparu Gwasanaethau Data Gwylio a Gwerthfawrogiad y Gynulleidfa**

---

| | |
|---|---|
| Cyhoeddwyd: | Dydd Llun 18fed Mehefin 2018 |
| Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno tendrau: | Dydd Llun 23ain Gorffennaf 2018 am 12:00 canol dydd |
| Dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau am eglurhad: | Dydd Llun 9fed Gorffennaf 2018 am 12:00 canol dydd |

S4C

**Cyflwyniad**

Mae'r ddogfen hon yn gwahodd ceisiadau gan unigolion, gwmnïau a sefydliadau y mae ganddynt ddiddordeb mewn cyflenwi ac sy'n gallu cyflenwi **gwasanaethau data gwylio a gwerthfawrogiad y gynulleidfa mewn perthynas â gwasanaethau S4C**, fel y disgrifir yn fwy penodol yn y tudalennau nesaf.

Mae'r Gwahoddiad i Dendro ("GID") yma yn cynnwys y rhannau canlynol:

| | |
|---|---|
| Rhan 1 | Gwybodaeth Gefndirol |
| Rhan 2 | Gwybodaeth Bellach am y Cytundeb |
| Rhan 3 | Gwybodaeth i'w Chynnwys yn yr Ymateb i'r Tendr |
| Rhan 4 | Amlinelliad y Broses Dendro a Cheisiadau am Wybodaeth Bellach |
| Rhan 5 | Meini Prawf Gwerthuso a Gwobrwyo'r Cytundeb |
| Rhan 6 | Nodiadau Cyfreithiol |
| Atodiad 1 | Cytundeb |

**Darllenwch y Gwahoddiad i Dendro yma yn ofalus. Mae'n bosib na fydd ymatebion i'r tendr nad ydynt yn cydymffurfio â gofynion y Gwahoddiad i Dendro yma yn cael eu hystyried.**

**Mae'r broses dendr yma, gan gynnwys y Gwahoddiad i Dendr yma, yn ddarostyngedig i'r Nodiadau Cyfreithiol a nodir yn Rhan 6.**

**Rhan 1 Gwybodaeth Gefndirol**

**1.1 S4C**

S4C yw'r unig sianel deledu Gymraeg yn y byd ac un o'r pum darlledwr teledu gwasanaeth cyhoeddus yn y DU. Mae'n awdurdod darlledu annibynnol a sefydlwyd o dan Ddeddf Darlledu 1981, ac mae'n cael ei rheoleiddio gan Ddeddf Gyfathrebu 2003 a'r Ddeddf Darlledu 1990.

Mae S4C yn darparu ystod eang o raglenni amrywiol o safon uchel. Mae'r sianel yn darlledu dros 115 awr o raglenni Cymraeg bob wythnos. Mae rhaglenni S4C ar gael i'w gwylio'n fyw ar wefan S4C trwy fandllydan a'r gwasanaeth gwylio ar alw ar wefan s4c.cymru, trwy iPlayer y BBC ac ar YouView, teledu clyfar, Sky, Freeview a nifer o blatfformau eraill.

Mae S4C wedi'i hariannu mewn ffordd unigryw trwy gymysgedd o arian grant, incwm masnachol a hysbysebu. Yn ogystal mae'r BBC yn darparu 10 awr o raglenni Cymraeg i S4C wedi ei ariannu gan y ffi drwydded.

Am ragor o wybodaeth am S4C, fe'ch cyfeirir at Adroddiad Blynyddol 2016/17, sydd ar gael ar wefan S4C (s4c.cymru), neu cysylltwch â:

Gwifren Gwylwyr
S4C
Parc Tŷ Glas
Llanisien
Caerdydd
CF14 5DU

Ffôn: 0370 600 4141 (Rydym yn croesawu galwadau yn Gymraeg.)

**1.2 Yr Uned Ddata a Dadansoddi**

Cynigir y tendr hwn gan yr Uned Ddata a Dadansoddi o fewn S4C. Mae'r Uned Ddata a Dadansoddi yn gyfrifol am gasglu a dadansoddi data cynulleidfa mewn perthynas â phob agwedd o fusnes S4C.

**1.3 Gwybodaeth am Gefndir y Cytundeb**

Mae gofynion S4C ar gyfer gwasanaethau Data Gwylio a Gwerthfawrogiad y Gynulleidfa yn cael eu darparu o dan amodau cytundeb a fydd yn dod i ben ar 31ain Mawrth 2019. Mae angen 2 fis o gyfnod cydredeg â'r gwasanaeth cyfredol ar S4C, felly bydd gofyn i'r ymgeisydd lwyddiannus adrodd data wythnosol i S4C am y cyfnod o 4ydd Chwefror 2019 ymlaen.

Trwy'r tendr hwn mae S4C am benodi cwmni i recriwtio panel o oedolion, yn siaradwyr Cymraeg a di-Gymraeg ill dau, ac i gynnal arolwg wythnosol o misol mewn perthynas â rhaglenni S4C ac arferion gwylio traws-sianel. Mae'n hanfodol bod gan y tendrwr llwyddiannus alluoedd iaith Gymraeg cryf a'r gallu i gyfathrebu ag aelodau o'r panel mewn Cymraeg rhugl o safon uchel. Bydd angen cynnal arolygon drwy'r post yn ogystal ag ar-lein.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am y cytundeb ac anghenion S4C yn Rhan 2.

**Rhan 2 Gwybodaeth Bellach am y Cytundeb**

## 2.1 Sgôp y cytundeb

Mae S4C yn dymuno penodi cyflenwr i recriwtio a gweinyddu panel o aelodau o'r cyhoedd i ddarparu amcangyfrifon o ddata gwylio a gwerthfawrogiad ynglyn â rhaglenni S4C.

Y mae elfennau allweddol y gwasanaethau sydd i'w darparu yn cynnwys:

- Recriwtio, rheoli a gweinyddu panel o isafswm o 1,000 o oedolion ar draws Cymru ac sy'n cynnwys 1,000 o siaradwyr Cymraeg a 400 o bobl di-Gymraeg.
- Rhaid i'r recriwtio gael ei gynnal yn ddwyieithog yn ei gyfanrwydd, yn y Gymraeg a'r Saesneg, gan ddefnyddio'r Gymraeg fel y cyswllt cyntaf ar gyfer siaradwyr Cymraeg.
- Bydd pob aelod o'r panel wedi ei leoli yng Nghymru, a rhaid i gynrychiolaeth ddaearyddol a demograffig y panel adlewyrchu Cymru, wedi ei bwysoli i adlewyrchu naill ai poblogaethau'r cyfrifiad neu boblogaethau Arolwg Sefydliad BARB (i'w trafod).
- Cyfleu i S4C arolwg wythnosol sy'n cofnodi'r defnydd o raglenni S4C (wedi'i fynegi yn ôl cyrhaeddiad rhaglen a chyrhaeddiad wythnosol y sianel) a gwerthfawrogiad y gynulleidfa o S4C fel sianel yn ogystal â'i rhaglenni unigol. Bydd y mynegeion gwerthfawrogiad (AIs) yn rhoi sgôr allan o 100, yn deillio o raddfa 10-pwynt. Gall S4C benodi cwestiynau penodol y bydd y tendrwr llwyddiannus yn eu cynnwys yn yr arolygol wythnosol o bryd i'w gilydd, unwaith y mis ar gyfartealedd.
- Cyfleu i S4C arolwg cyffredinol o werthfawrogiad traws-sianel unwaith y mis (sgôr gwerthfawrogiad sianel – hyd at 10 sianel).
- Cyfleu adroddiad i S4C unwaith y mis ynglyn ag ymatebion y panel i gwestiynau atodol. Bydd S4C yn enwebu'r cwestiynau atodol a bydd y rhain wedi eu cyfyngu i 3 pwnc y mis.
- Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cysylltu â phob aelod o'r panel yn ddwyieithog neu yn eu hiaith ddewisol, Cymraeg neu Saesneg, a bydd pob gohebiaeth a dogfennau yn ddwyieithog neu yn newis iaith y panelwr.
- Cynhelir pob arolwg yn unol ag arfer gorau corff perthnasol yn y diwydiant (er enghraifft y Market Research Society), ac ni fydd mwy na 80% yn cael eu cynnal ar-lein gydag o leiaf 20% yn cael eu cynnal drwy'r post.
- Bydd pob aelod o'r panel yn 16 blwydd neu'n hŷn ac eithrir unigolion sy'n gweithio yn niwydiant y cyfryngau yng Nghymru.
- Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn sicrhau bod o leiaf un aelod o'i staff llawn amser yn siaradwr Cymraeg er mwyn darparu gwasanaethau iaith Gymraeg ac i ddelio ag unrhyw gwestiynau neu ymholiadau gan aelodau'r panel.
- Rhaid i'r sefydliad sy'n darparu'r gwasanaeth gydymffurfio â Chod Ymddygiad cymdeithas perthnasol yn y diwydiant mewn cysylltiad â darpariaeth y gwasanaethau hyn i S4C (er enghraifft Cod Ymarfer yr MRS).

## 2.2 Telerau a Hyd y Cytundeb

Mae'r cytundeb drafft ynghlwm yn Atodiad 1.

Bydd y cytundeb am gyfnod o 3 blynedd gydag opsiwn i ymestyn hyd y cytundeb am 12 mis ychwanegol.

Bydd S4C yn adolygu'r cytundeb a pherfformiad y cwmni llwyddiannus ar ôl y flwyddyn gyntaf ac mae'n cadw'r hawl i derfynu'r cytundeb ar ddiwedd y flwyddyn gyntaf yn dilyn adolygiad o'r fath. Bydd yr adolygiad hwn yn ychwanegol i unrhyw adolygiadau rheolaidd a ddarperir yn y cytundeb.

Mae S4C yn cynnal y broses dendro hon gan ddefnyddio'r weithdrefn gyfyngedig dan Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 (Public Contracts Regulations 2015), felly ni chaniateir unrhyw

drafodaeth ynghylch y cytundeb draft wedi i'r tendr gael ei roi i'r Tendrwr llwyddiannus. Caniateir diwygiadau i'r cytundeb drafft er mwyn adlewyrchu'r ymateb tendro llwyddiannus a/neu er mwyn egluro amodau'r cytundeb draft yn unig. Trwy gyflwyno ymateb i'r GID yma, mae Tendrwyr yn cytuno, os byddant yn llwyddiannus, eu bod yn ymrwymo i gytundeb gydag S4C yn unol â'r ffurf a nodir yn Atodiad 1. Gofynnir i Dendrwyr nodi darpariaethau Rhan 6.4. yn y cyd-destun hwn.

### 2.3 Gwarant Rhiant Cwmni a Chonsortia

Noder efallai y bydd S4C yn gofyn i'r Tendrwr llwyddiannus ddarparu gwarantau gan riant gwmni. Os yw consortiwm yn cynnig tendr a bod ei ymateb maes o law yn llwyddiannus gall y bydd ar S4C eisiau: (i) i'r consortiwm ffurfio endid cyfreithiol cyn arwyddo cytundeb; a/neu (ii) cyd-atebolrwydd ac atebolrwydd unigol holl aelodau'r consortiwm; a/neu (iii) gwarantau a/neu ymrwymiadau gan rai neu'r oll o aelodau'r consortiwm ar ran rhai neu'r oll o aelodau eraill y consortiwm.

### 2.4 Amcan bris

Mae S4C yn amcangyfrif y dylid medru darparu'r gwasanaeth dros gyfnod y cytundeb yn unol â gofynion S4C am gost o tua £600,000 (gan eithrio TAW) (gan gynnwys unrhyw gostau gosod gwirioneddol, os eir i unrhyw gostau.) Croesawir ceisiadau sy'n cyflwyno ffigwr is

### 2.5 Gofynion Staffio

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn sicrhau bod o leiaf un aelod llawn amser o'i staff yn siaradwr Cymraeg rhugl sy'n medru delio ag unrhyw gwestiynau neu ymholiadau gan aelodau'r panel ac i greu a gwirio pob dogfen iaith Gymraeg. Rhaid i'r staffio arall fod yn ddigonol i gynnal y gwaith yn effeithlon, ac i ddelio â phob ymholiad gan S4C a phanelwyr.

### 2.6 Gwybodaeth Ymchwil

**Cyrhaeddiad Wythnosol**
*12 mis yn gorffen Mawrth 2017*

Cafodd S4C ei gwylio gan **614,000** o bobl ar draws y **DU:**

- 347,000 yng Nghymru
- 267,000 yng ngweddill y DU

Roedd 50% o wylwyr S4C mewn wythnos arferol yn 16/17 yn ddi-Gymraeg.

*Ffynhonnell: BARB. Mae'r ffigyrau cyrhaeddiad hyn ar gyfer o leiaf 3 munud o wylio parhaus mewn wythnos.*

### 2.7 Gofynion Technegol

Os defnyddir meddalwedd arbennig ar gyfer darparu data, disgrifiwch y meddalwedd hwnnw a rhestrwch unrhyw ofynion technegol y gallai effeithio ar S4C. Dylid cynnwys y gost i S4C o gaffael unrhyw drwyddedau meddalwedd o fewn y ffi.

## 2.8 Cydymffurfio â Deddfwriaeth Berthnasol

Bydd disgwyl i’r ymgeisydd llwyddiannus gael dealltwriaeth fanwl o a systemau effeithiol mewn lle i sicrhau cydymffurfiaeth â phob cyfraith perthnasol, gan gynnwys heb gyfyngiad deddfwriaeth diogelu data a rheoliadau iaith Gymraeg. Dylid cynnwys y gost i S4C o sicrhau cydymffurfiaeth o fewn y ffi.

Attgoffir tendrwyr bod yn rhaid i wasanaethau gael eu darparu mewn modd sy’n cydymffurfio a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 (lle bo’n berthnasol) a gyda’r safonau y mae’n rhaid i S4C gydymffurfio â hwy fel pe bai’r tendrwr ei hun yn gweithredu fel S4C. Mae’n rhaid i dendrwyr sicrhau eu bod nhw’n gyfarwydd â’r safonau y mae’n rhaid i S4C gydymffurfio â hwy sydd ar gael yn http://www.s4c.cymru/cy/amdanom-ni/awdurdod/page/17368/safonaur-gymraeg/

Mae’n rhaid i dendrwyr gyflwyno datganiad yn disgrifio sut y byddent yn cyflawni’r gwasanaeth o dan y cytundeb mewn modd a fyddai’n sicrhau fod y panelwyr yn cael eu trin yn gyfartal a’i gilydd pa un a ydynt angen darparu cyfathrebiaeth yn y Gymraeg neu’r Saesneg.

## 2.9 Adrodd

Mae S4C ar hyn o bryd yn seilio'r holl adroddiadau cyhoeddus ar samplau dros 25 (fesul genre i bob ton) ond bydd hefyd angen adrodd ar raglenni sydd â meintiau sampl llai, yn ogystal â chyfartaleddau dros amser. Felly mae'n bwysig bod yr holl ddata a gyflenwir yn nodi maint y sampl a ddefnyddiwyd. Gweler yr adran ar adrodd yn adran 3.1 isod am ragor o wybodaeth. Mae S4C yn dymuno i’r data mynegai gwerthfawrogiad (AI’s) gael eu darparu drwy ryngwyneb meddalwedd. Mae S4C angen i’r adrodd ar y data i fod ar gael mewn ffordd sy'n gyfeillgar i'r defnyddiwr ac sy'n caniatáu hyblygrwydd wrth ddadansoddi’r data.

Bydd yn ofynnol adrodd ar ganlyniadau'r holl ddata a gesglir gan y tendrwr llwyddiannus i S4C yn wythnosol ac yn fisol. Rhaid i'r holl ddata gael ei bwysoli yn ôl y poblogaethau perthnasol.

Bydd gofyn i'r data gynnwys y canlynol:

- Y data diagnostig (o’r holiadur), wedi'i rannu'n dair set o ddata: y panel cyfan, siaradwyr Cymraeg a'r di-Gymraeg. (Noder: nid yw S4C yn disgwyl i hyn fod ar gael drwy feddalwedd, gan ei fod yn cynnwys yr ymatebion i holiaduron.)

- Canlyniadau AI’s (mynegai gwerthfawrogiad), data wythnosol, wedi'u rhannu'n dair set o ddata: rhaglenni wedi'u rhestru yn ôl genre, rhaglenni wedi'u rhestru yn ôl diwrnod/amser a chyfanswm AI ar gyfer pob sianel.

- Crynodeb chwarterol yn cynnwys yr holl deitlau, ac AI fesul sianel.

Bydd angen rhannu'r holl ddata hefyd ar sail demograffig.

Bydd angen i'r tendrwr llwyddiannus hefyd ddarparu i S4C, ar ddiwedd pob ton o ymchwil, wybodaeth am broffil y panel, gan gynnwys cyfraddau ymateb.

# Rhan 3 Gwybodaeth i’w Chynnwys yn yr Ymateb i’r Tendr

## 3.1 Gwybodaeth Angenrheidiol

Dylai'r Tendrwyr ddarparu'r wybodaeth ganlynol fel rhan o'r ymateb tendro er mwyn dangos yn fanwl sut y bodlonir gofynion S4C:

a) Recriwtio'r panel. Nodwch:

- Sut fyddech yn recriwtio'r panel er mwyn sicrhau 1,000 o siaradwyr Cymraeg a 400 o bobl di-Gymraeg cyn Chwefror 1af 2019?
- Beth yw'r heriau a ragwelir wrth recriwtio'r panel? Sut fyddech yn mynd i'r afael â'r heriau hynny?
- Faint o amser arweiniol fyddai ei hangen arnoch er mwyn recriwtio'r panel llawn erbyn Chwefror 1af 2019?
- Sut fyddech yn sicrhau cydbwysedd daearyddol a demograffig?
- Darparwch awgrym o amserlen realistig ar gyfer y recriwtio.

b) Rheoli a gweinyddu'r panel. Nodwch:

- Sut fyddech yn darparu safon, cysondeb a chyflymder ymateb trwy gydol y tymor?
- Beth yw'r heriau a ragwelir wrth weinyddu'r panel? Sut fyddech yn mynd i'r afael â'r heriau hynny?
- Sut fyddech yn mynd i'r afael ag amnewid aelodau'r panel?
- Disgrifiwch pob dull a system ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth â rheoliadau iaith Gymraeg yn ystod y broses recriwtio ac wedi hynny (gweler rhan 2.8 am ragor o wybodaeth).

c) Sicrhau'r cyfraddau ymateb gorau. Nodwch:

- Pa gymhellion fyddech chi'n eu cynnig i'r panelwyr, os o gwbl?
- Sut fyddech yn osgoi ac yn delio â chyfraddau athreuliad ymysg y panel?
- A oes gennych unrhyw syniadau creadigol am ddulliau a ddefnyddir i dderbyn ymatebion?

d) Darparu data a dulliau adrodd. Nodwch:

- Sut fydd S4C yn cael mynediad at y data, ai trwy feddalwedd neu adroddiadau neu'r ddau/
- Sut fyddech yn pwysoli'r data.
- Darparwch fanylion am amseriad derbyn y data gan S4C (o ystyried yr elfen bostio) ac amseriad ar gyfer y gyfran ar-lein ar wahân (os yn bosib).
- Pa lefel o ddata daearyddol a demograffig fydd ar gael? Pa lefel o gefnogaeth a darpariaeth data ad-hoc fyddech yn medru ei ddarparu i S4C, os o gwbl?

e) Sicrhau cydymffurfiaeth â chyfreithiau perthnasol. Disgrifiwch:

- Y dulliau a'r systemau sydd gennych mewn lle er mwyn sicrhau y darperir y gwasanaeth yn unol â deddfwriaeth diogelu data perthnasol.
- Darparwch asesiad effaith preifatrwydd ar gyfer y gwasanaeth.

f) Ffi a llif arian (gweler adran 3.2 isod am ragor o wybodaeth).

Gall y Tendrwyr gynnwys gwybodaeth ychwanegol pan fo hynny'n berthnasol i'w hymatebion tendro, ond ni ddylai ymatebion tendro gynnwys unrhyw wybodaeth amherthnasol nas gofynnwyd amdani yn benodol neu sy'n ofynnol yn ôl y GID hwn gan gynnwys, er enghraifft, llenyddiaeth at ddibenion gwerthu ac amodau masnachu safonol.

Rhaid i ymatebion tendro barhau i fod yn agored am 3 mis o'r dyddiad rhoddir ar gyfer cyflwyno ymatebion tendro

Os bydd y Tendrwr (neu, yn achos ymateb tendro a gyflwynir gan gonsortiwm, unrhyw aelod o'r consortiwm), ar unrhyw adeg, yn dod yn ymwybodol o'r ffaith bod unrhyw wybodaeth y mae (neu, yn achos ymateb tendro a gyflwynir gan gonsortiwm, unrhyw aelod o'r consortiwm) wedi ei ddarparu i S4C mewn cysylltiad â'r broses dendro hon yn anghyflawn, yn anghywir neu'n gamarweiniol mewn unrhyw ffordd neu heb fod yn gywir mwyach, rhaid hysbysu S4C o hyn ar unwaith.

### 3.2 Ffi

Mae S4C yn mynnu bod y gwasanaethau yn cael eu darparu am ffi blynyddol sefydlog, i gynnwys unrhyw gostau gosod, rheoli cyfrif, gweinyddu, staffio, cyfarfodydd a'r holl gostau a'r treuliau eraill sy'n codi o ddarparu'r gwasanaeth. Rhaid cyfleu'r ffi sefydlog hon mewn punnoedd sterling neu ei throsi i bunnoedd sterling, heb gynnwys TAW, ac mae'n rhaid iddi fod yn sefydlog trwy gydol y cytundeb.

Lle bo tendrwyr yn rhagweld na fydd costau gosod am unrhyw reswm, er enghraifft oherwydd defnydd o fas data sydd eisoes yn bodoli, dylai tendrwyr esbonio hyn ac addasu'r costau yn unol â hynny.

Dylai Tendrwyr nodi'r ffi sy'n daladwy am y gwasanaethau a'r rhestr daliadau awgrymedig mewn ffordd eglur. Mae S4C yn disgwyl i'r llif arian ddosbarthu taliadau'r ffi'n briodol trwy gydol tymor y cytundeb ac ni fydd taliadau sylweddol ymlaen llaw.

Dylai Tendrwyr ddarparu manylion am y ffi sefydlog a gynigir gennych, wedi'i rhannu i ddangos y ffi ar wahân o ran elfennau canlynol y cytundeb:

- Cymhellion i ymatebwyr
- Costau gosod (os yn berthnasol)
- Costau meddalwedd i S4C
- Costau eraill

### 3.3 Uchafswm Tudalennau

Dylai Tendrwyr geisio bod yn gryno wrth ddrafftio eu hymatebion i'r GID yma. Ni ddylai ymateb i'r GID yma fod yn hirach na 15 tudalen A4 o hyd ac ni ddylid defnyddio maint ffont llai na Georgia 10. Mae S4C yn cadw'r hawl i eithrio o'r broses dendro unrhyw ymateb i'r GID nad sydd yn cydymffurfio â'r gofynion hyn.

Nid yw'r cyfyngiad tudalennau uchod yn cynnwys unrhyw ddogfennau yr atodir i'r brif ddogfen ymateb i'r GID.

### 3.4 Cadarnhad Cywirdeb Gwybodaeth

Drwy ddanfon ymateb i'r GID hwn mae Tendrwyr yn cadarnhau bod pob gwybodaeth sydd wedi ei gynnwys yn yr Holiadur Cyn-Gymhwyso yn parhau i fod yn wir, gyflawn a chywir. Os oes unrhyw ran o'r wybodaeth a roddwyd fel rhan o'r Holiadur Cyn-Gymhwyso wedi newid dylid nodi unrhyw newidiadau yn glir fel rhan o'r ymateb i'r GID hwn.

## Rhan 4 Amlinelliad y Broses Dendro a Cheisiadau am Wybodaeth Bellach

### 4.1 Amlinelliad y Broses Dendro

Ar 11eg Mai 2018 cyhoeddwyd hysbysiad cytundeb yng Nghyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd yn estyn gwahoddiad i ddarparwyr y mae ganddynt ddiddordeb mewn darparu Gwasanaethau Data Gwylio a Gwerthfawrogiad y Gynulleidfa i lawrlwytho, llenwi a dychwelyd Holiadur Cyn-Gymhwyso i S4C (a wnaed ar gael gan S4C) er mwyn cyfranogi yn y broses dendro hon, i'w hasesu gan S4C. O ganlyniad, lluniwyd rhestr fer yn unol â'r weithdrefn a nodir yn yr Holiadur Cyn-Gymhwyso, ac estynnwyd gwahoddiad i dendro i endidau penodol.

Bydd gweddill y broses tendro yma yn cynnwys y camau canlynol:

| | | |
|---|---|---|
| Cam 1 | Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau am esboniad | Dydd Llun 9fed Gorffennaf 2018 am 12:00 canol dydd |
| Cam 2 | Dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion tendro | Dydd Llun 23ain Gorffennaf 2018 am 12:00 canol dydd |
| Cam 3 | Dechrau ar y gwaith o werthuso ymatebion tendro | Dydd Llun 23ain Gorffennaf 2018* |
| | Cyfweliadau | Dydd Mercher 1af a/neu Dydd Iau 2il Awst 2018* |
| Cam 4 | Hysbysiad ynghylch canlyniadau'r gwaith gwerthuso | Dydd Llun 6ed Awst 2018* |
| Cam 5 | Llofnodi cytundeb | Dydd Mawrth 21ain Awst 2018* |

Noder y gellid newid y dyddiadau sydd wedi eu marcio â *.

### 4.2 Cyflwyno Ymatebion Tendro

Gofynnir i Dendrwyr gyflwyno ymateb tendro yn Gymraeg neu yn Saesneg yn unol â gofynion y GID hwn, ar ffurf electronig, erbyn y dyddiad cau ar gyfer cael ymatebion tendro a nodir yn Rhan 4.1 uchod.

Dylid nodi **"GID – Gwasanaethau Data Gwylio a Gwerthfawrogiad y Gynulleidfa"** yn eglur ar ymatebion tendro a'u hanfon mewn neges e-bost at: Tendr.Cyfathrebu@s4c.cymru

Caniateir i dendrau gael eu cyflwyno yn y Gymraeg neu yn Saesneg. Ni fydd tendr a gyflwynir yn y Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na thendr a gyflwynir yn Saesneg.

NI FYDD UNRHYW YMATEBION TENDRO A FYDD YN CAEL EU CYFLWYNO AR ÔL Y DYDDIAD CAU AR GYFER CAEL YMATEBION TENDRO A NODIR YN RHAN 4.1 UCHOD, NEU Y DERBYNNIR GAN S4C I UNRHYW GYFEIRIAD AC EITHRIO'R CYFEIRIAD A NODIR UCHOD, YN CAEL EU HYSTYRIED A CAIFF UNRHYW YMATEBION TENDRO O'R FATH EU HEPGOR O'R BROSES DENDRO HON.

Ni fydd S4C yn gyfrifol am unrhyw ddiffygion yn y system ddosbarthu neu am unrhyw ymatebion tendro a fydd yn mynd ar goll, a fydd yn cael eu hoedi neu a fydd yn ddiffygiol. Mae Tendrwyr yn gyfrifol am sicrhau bod eu hymatebion tendro (ac unrhyw atodiadau) yn cael

eu paratoi mewn da bryd (gan ystyried y posibilrwydd y bydd staff yn absennol neu y gallai methiannau technegol godi) a'u bod yn cael eu cyflwyno cyn y dyddiad cau ar gyfer cael ymatebion tendro, a nodir yn Rhan 4.1 uchod.

Sylwer mai 20Mb yw'r uchafswm o ran maint negeseuon e-bost y gall S4C eu derbyn ac mai'r ffurfiau a ganiateir ar gyfer ffeiliau yw Word, Excel, PDF a Jpeg. Mae'r ffurfiau hyn yn dderbyniol fel Ffeiliau *Zip.* Dylai Tendrwyr fod yn ymwybodol y gallai eu ISP (Darparwr Gwasanaethau Rhyngrwyd) eu hunain bennu cyfyngiadau is o ran maint negeseuon e-bost ac felly, fe'u cynghorir i holi eu ISP neu eu hadran TG eu hunain ynghylch unrhyw gyfyngiadau ar faint negeseuon ymhell cyn y dyddiad anfon a'r dyddiad cau.

Ni fernir bod prawf o anfon deunydd yn cyfateb â phrawf bod deunydd wedi cyrraedd, a chynghorir Tendrwyr i geisio cydnabyddiaeth ar ffurf neges e-bost ar wahân bod y deunydd wedi cyrraedd.

### 4.3 Ystyried Ymatebion Tendro

Bydd S4C yn ystyried yr holl ymatebion tendro y derbynnir gan S4C sydd yn cydymffurfio â'r gofynion a nodir yn y GID hwn [a'r holl wybodaeth a ddarparir mewn cyfweliad] yn unol â'r weithdrefn a'r meini prawf a nodir yn Rhan 5 isod. Bydd dyfarnu cytundeb yn cael ei seilio ar asesiad S4C o'r ymateb tendro sy'n cynnig y fantais economaidd fwyaf, yn unol â'r meini prawf a nodir yn Rhan 5 isod. Hysbysir pob Tendrwr a gyflwynodd ymateb i'r GID o ganlyniad gwaith gwerthuso S4C mewn neges e-bost. Gweler Rhan 5.4 ymhellach isod.

### 4.4 Esbonio Ymatebion Tendro a Chyfweliadau

Efallai y bydd S4C yn gofyn i Dendrwyr ddarparu gwybodaeth bellach a/neu esboniad ynghylch unrhyw faterion yn eu hymatebion tendro.

Efallai y bydd S4C yn gofyn i Dendrwyr fynychu cyfweliadau yng Nghaerdydd er mwyn esbonio manylion a nodir yn y ddogfen ymateb tendro ac er mwyn gwneud cyflwyniad. Gellir cynnal y cyfweliad yn Gymraeg neu yn Saesneg. Os byddwch yn dewis cyfweliad trwy gyfrwng y Gymraeg, byddwn yn darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg os oes angen.

### 4.5 Ceisiadau am Wybodaeth Bellach

Rhaid gwneud pob math o gyswllt mewn perthynas â'r broses dendro hon, gan gynnwys unrhyw geisiadau am wybodaeth bellach a/neu arweiniad wrth gwblhau ymatebion tendro, ar ffurf neges e-bost i S4C, a'u hanfon at Cwestiwn.Tendr@s4c.cymru

Ni ddylai Tendrwyr drafod neu ofyn am wybodaeth ynghylch y broses dendro hon mewn unrhyw ffordd gan unrhyw swyddog, cyflogai, asiant neu gynghorwr arall S4C.

Anogir Tendrwyr i nodi unrhyw arweiniad a/neu wybodaeth bellach y mae'n bosib y bydd ei hangen arnynt mewn cysylltiad â'r broses dendro hon, cyn gynted ag y bo modd. Y dyddiad cau er mwyn cyflwyno ceisiadau am wybodaeth bellach a/neu arweiniad yw **Dydd Llun 9fed Gorffennaf 2018 am 12:00 canol dydd**. Ni ystyrir unrhyw geisiadau a fydd yn cael eu gwneud ar ôl y dyddiad cau hwn. Bydd S4C yn ceisio delio â'r holl geisiadau a wneir cyn y dyddiad cau hwn mewn ffordd brydlon.

Er mwyn sicrhau tegwch a thryloywder, sylwer y bydd yr holl geisiadau am wybodaeth bellach a/neu arweiniad ynghylch y broses dendro hon, ynghyd ag ymatebion S4C i geisiadau o'r fath, yn cael eu datgelu i'r holl Dendrwyr. Bydd datgeliadau o'r fath yn cael eu gwneud mewn

negeseuon e-bost, a'u hanfon at y cyfeiriadau e-bost a ddarparwyd gan Dendrwyr yn yr ymatebion tendr a gwblhawyd ganddynt.

Os bydd Tendrwyr o'r farn bod unrhyw gais am wybodaeth bellach a/neu arweiniad y byddant yn ei wneud yn sensitif ar lefel fasnachol, rhaid iddynt nodi "sensitif yn fasnachol" yn eglur ar y cais, a nodi'r rhesymau pam eu bod o'r farn ei bod yn sensitif ar lefel fasnachol. Sylwer, fodd bynnag, y bydd S4C yn penderfynu, yn unol â'i disgresiwn llwyr, a yw'n ystyried bod unrhyw gais o'r fath yn sensitif ar lefel fasnachol. Os bydd S4C yn penderfynu bod cais yn sensitif ar lefel fasnachol, ni fydd S4C yn datgelu'r cais na'i hymateb i gais o'r fath, i Dendrwyr eraill. Os bydd S4C yn penderfynu nad yw cais yn sensitif ar lefel fasnachol, bydd yn hysbysu'r Tendrwr o hyn. Os bydd y Tendrwr yn cytuno nad yw'r cais yn sensitif ar lefel fasnachol, bydd S4C yn ymateb i'r cais a bydd ganddi'r hawl i ddatgelu'r cais, a'i hymateb iddo, i'r holl Dendrwyr. Os na fydd y Tendrwr yn cytuno nad yw'r cais yn sensitif ar lefel fasnachol neu os na fydd yn hysbysu S4C a yw'n cytuno cyn pen un diwrnod gwaith, ystyrir bod y cais yn cael ei dynnu yn ôl ac ni fydd S4C yn ymateb iddo. Ni fydd unrhyw beth yn y paragraff hwn yn cael ei ddehongli fel rhywbeth sy'n cyfyngu ar allu S4C i ddatgelu unrhyw wybodaeth i unrhyw unigolyn mewn unrhyw ffordd, er mwyn cydymffurfio â'i hymrwymiadau rhyddid gwybodaeth, fel yr amlinellir yn Rhan 6.6 isod.

Bernir bod unrhyw geisiadau ac unrhyw ymatebion iddynt a ddatgelir i'r holl Dendrwyr, yn rhan o'r GID hwn.

**Rhan 5  Meini Prawf Gwerthuso a Gwobrwyo'r Cytundeb**

## 5.1 Profi Cydymffurfiaeth

Cyn cychwyn ar y broses ffurfiol o werthuso'r ymatebion tendro, bydd S4C yn archwilio'r ymatebion tendro er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â gofynion y GID yn llawn. Gellid gwrthod ymatebion tendro nad ydynt yn cydymffurfio. Bydd S4C yn gwerthuso ymatebion tendro sy'n cydymffurfio yn llawn, yn unol â'r darpariaethau a nodir yn y rhan hwn sef Rhan 5.

## 5.2 Gwerthuso

S4C will use the following evaluation criteria to evaluate the tenders submitted:

| Meini Prawf Dyfarnu | Gwybodaeth i'w Asesu | Cwestiynau Gwerthuso (Sut fydd S4C yn gwerthuso'r ymateb) | Pwysoliad |
|---|---|---|---|
| Methodoleg ar gyfer recriwtio panel addas a'r amserlen arfaethedig | Disgrifiad o sut fydd y tendrwr yn sicrhau recriwtio panel addas | A yw'r darparwr wedi dangos sut fydd yn recriwtio panel addas er mwyn sicrhau'r niferoedd lleiafswm angenrheidiol a chydbwysedd daearyddol a demograffig? | 6% |
| Methodoleg ar gyfer recriwtio panel addas a'r amserlen arfaethedig | Disgrifiad o'r heriau a ragwelir wrth recriwtio a sut fyddai'r darparwr yn mynd i'r afael â hynny | A yw'r darparwr wedi dangos bod ganddo ddealltwriaeth o'r heriau posib a bod ganddo systemau effeithiol er mwyn mynd i'r afael â'r fath heriau? | 5% |
| Methodoleg ar gyfer recriwtio panel addas a'r amserlen arfaethedig | Disgrifiad o amserlen y tendrwr ar gyfer recriwtio | A yw'r darparwr wedi dangos ei allu i sicrhau recriwtio'r panel llawn erbyn y terfyn amser angenrheidiol? | 6% |
| Rheoli a gweinyddu'r panel | Disgrifiad o fethodoleg y Tendrwr ar gyfer rheoli a gweinyddu'r panel | A yw'r darparwr wedi dangos sut fydd yn darparu safon, cysondeb a chyflymder ymateb gan aelodau'r panel trwy gydol y tymor; a yw'r darparwr wedi dangos ei ddealltwriaeth o'r heriau posib wrth weinyddu'r | 6% |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | panel; a sut fydd yn mynd i'r afael â'r heriau hynny?<br><br>A yw'r darparwr wedi dangos sut fydd yn mynd i'r afael ag amnewid aelodau o'r panel? | |
| Rheoli a gweinyddu'r panel | Disgrifiad o bob dull a system ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth â rheoliadau iaith Gymraeg yn ystod y broses recriwtio ac wedi hynny | A yw'r darparwr wedi dangos ateb priodol ar gyfer sicrhau bod yr holl recriwtio ar gyfer y panel yn cael ei gynnal yn ddwyieithog; bod pob cyfathrebiaeth ag aelodau'r panel yn eu dewis iaith; a bod y darparwr yn Cydymffurfio â phob un o Safonau'r Gymraeg sy'n berthnasol? | 5% |
| Sicrhau'r cyfraddau ymateb gorau ac osgoi a delio a chyfraddau athreuliad ymysg y panel | Disgrifiad o fethodoleg y darparwr ar gyfer sicrhau'r cyfraddau ymateb gorau gan gynnwys unrhyw gymhellion a gynigir i'r panel | A yw'r darparwr wedi dangos sut fydd yn osgoi ac yn delio â chyfraddau athreuliad ymysg y panel; pa gymhellion, os o gwbl, fyddai'n cael eu cynnig i'r panelwyr; ac a oes gan y darparwr syniadau creadigol a ddefnyddir ar gyfer derbyn ymatebion? | 10% |
| Darparu data a dulliau adrodd | Disgrifiad o sut fydd S4C yn cael mynediad at y data | A yw'r darparwr wedi dangos sut fydd yn darparu'r data mewn modd hawdd ei ddefnyddio ac sy'n caniatau hyblygrwydd wrth ddadansoddi'r data? | 5% |
| Darparu data a dulliau adrodd | Manylion amseru darpariaeth y data i S4C (o ystyried yr elfen bostio) ac amseru ar gyfer darparu'r elfen ar-lein (lle'n bosib) | A yw'r darparwr wedi dangos sut fydd yn sicrhau darpariaeth data cyflym i S4C yn dilyn ei dderbyn gan y panel? | 5% |
| Darparu data a dulliau adrodd | Disgrifiad o'r data a gaiff ei wneud ar gael i S4C | A yw'r disgrifiad o'r data a gaiff ei wneud ar gael i S4C yn cydweddu â gofynion S4C fel a nodir yn rhan 2.9? | 10% |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | A yw'r darparwr wedi dangos y bydd yn darparu data gyda phwysoliad addas (gan gymryd i ystyriaeth natur iaith cymysg y panel) ac is-setiau data daearyddol a demograffig addas? | |
| Darparu data a dulliau adrodd | Y lefel o gefnogaeth a darpariaeth data ad-hoc a ddarperir i S4C, os o gwbl | A fydd y darparwr yn cynnig unrhyw adrodd data ad-hoc ychwanegol fel rhan o'r cytundeb? | 2% |
| Systemau Diogelu Data | Disgrifiad o'r dulliau a'r systemau sydd gan y darparwr mewn lle er mwyn sicrhau y darperir y gwasanaeth yn unol â deddfwriaeth diogelu data perthnasol.<br><br>Asesiad Effaith Preifatrwydd / Polisi Preifatrwydd ar gyfer y gwasanaeth | A yw'r darparwr wedi dangos bod ganddo systemau effeithiol a chadarn mewn lle er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth diogelu data perthnasol, a bod hyn wedi ei dystiolaethu'n ddigonol yn yr Asesiad Effaith Diogelu Data/Polisi Preifatrwydd a ddarparwyd? | 5% |
| Amserlen Dalu | Amserlen dalu awgrymedig ar gyfer y ffi | A yw'r ymgeisydd wedi awgrymu amserlen dalu sy'n dosbarthu taliadau o'r ffi'n briodol trwy gydol tymor y cytundeb? | 5% |

Bydd y broses werthuso yn cynnwys asesiad llawn o'r tendrau a ddarparwyd ar sail y Meini Prawf Gwerthuso a restrwyd uchod. Noder y bydd S4C yn defnyddio'r fethodoleg ganlynol ar gyfer asesu'r ymatebion fesul maen prawf:

| **Sgôr** | **Categori** | **Proffeil** |
|---|---|---|
| 0 | Ymateb sero / Gwan iawn | Methwyd â mynd i'r afael â gofynion S4C neu does dim tystiolaeth wedi ei ddarparu i fynd i'r afael â gofynion S4C. |

| | | |
|---|---|---|
| 1 | Gwan | Cynnig gwan o ran mynd i'r afael â gofynion S4C neu gyda thystiolaeth gwan i gefnogi y byddai'r cynnig yn cael ei gyflawni, sydd â bylchau mawr, nad yw'n argyhoeddi mewn sawl ffordd neu sydd â diffyg credadwyedd difrifol. |
| 2 | Llai na Boddhaol | Cynnig sy'n llai na boddhaol o ran mynd i'r afael â gofynion S4C neu sydd â thystiolaeth cefnogol llai na boddhaol, sydd â bylchau cymedrol neu sy'n amherthnasol neu'n methu ag argyhoeddi. |
| 3 | Boddhaol | Cynnig boddhaol o ran mynd i'r afael â gofynion S4C neu sydd â thystiolaeth boddhaol y byddai'r cynnig yn cael ei gyflawni ond sydd â mân fylchau neu sy'n methu ag argyhoeddi i raddau neu sydd â diffyg credadwyedd. |
| 4 | Da | Cynnig da i fynd i'r afael â gofynion S4C sydd â thystiolaeth da i gefnogi y byddai'r cynigion yn cael eu cyflawni sy'n ddigonol (mewn termau ansoddol), yn argyhoeddi ac yn gredadwy. |
| 5 | Arbennig | Cynnig arbennig sy'n mynd i'r afael â ac yna'n rhagori ar ofynion S4C mewn ffordd y mae S4C yn ystyried sy'n cynnig (yng nghyd-destun nodau ac amcanion S4C a nodir yn adran 2) gwasanaethau ychwanegol sy'n gost-effeithiol ac y gellir eu cyflawni ac sydd â thystiolaeth arbennig i gefnogi y byddai'r cynigion yn cael eu cyflawni, sy'n gyson, cynhwysfawr a chymhellol. |

**Gwerthuso'r Ffi**

Bydd S4C yn gwerthuso'r ffi a ddarparwyd trwy ddefnyddio'r fformiwla canlynol: ffi isaf a ddarparwyd fel rhan o'r tendr wedi ei rannu â'r ffi a ddarparwyd gan y tendrwr dan sylw. Gall S4C eithrio ymatebion sydd wedi darparu ffioedd anarferol o isel. Caiff y ffi ei bwysoli yn ôl 30%

### 5.3 Anghymhwyso Ymatebion Tendro/Tendrwyr

Mae S4C yn cadw'r hawl i anghymhwyso ymateb tendro a/neu Dendrwr o'r broses dendro hon ar unrhyw adeg os:

(a) na fydd ymateb tendro yn cydymffurfio ag unrhyw rai o ofynion y GID hwn;

(b) bydd unrhyw wybodaeth a ddarparir i S4C gan y Tendrwr perthnasol (neu, yn achos consortiwm, unrhyw un o'i aelodau), yn anghyflawn, yn anghywir neu'n gamarweiniol mewn unrhyw ffordd, neu os na fydd yn gywir mwyach;

(c) bydd y Tendrwr wedi cynllwynio gydag unrhyw unigolyn (heb gynnwys, pan fo'r Tendrwr yn gonsortiwm, cynllwynio rhwng aelodau'r consortiwm mewn cysylltiad ag ymateb tendro y consortiwm) mewn perthynas neu mewn cysylltiad gyda'i ymateb tendro neu ymateb tendro unrhyw Dendrwr arall.

Ni fydd y cam o anghymhwyso unrhyw ymateb tendro neu Dendrwr yn amharu ar unrhyw hawliau neu rwymedïau eraill S4C.

**5.4 Dyfarnu Cytundeb**

Yn unol â darpariaethau Rhan 6.1 isod ac ar ôl cwblhau'r gwaith o werthuso ymatebion tendro, bydd S4C yn hysbysu Tendrwr o ganlyniadau'r gwaith gwerthuso. Bydd gofyn i'r Tendrwr y bu eu hymateb tendro yn llwyddiannus, i ymrwymo i gytundeb gydag S4C ar ffurf y cytundeb drafft. Ni fydd unrhyw gytundeb yn cael ei ffurfio oni bai a nes bod S4C yn arwyddo'r cytundeb. Ni fydd unrhyw dderbyniad llafar neu ysgrifenedig o unrhyw dendr, neu hysbysiad bod Tendrwr wedi bod yn llwyddiannus, yn gyfystyr â rhwymyn cytundeb.

**Rhan 6 Nodiadau Cyfreithiol**

**6.1 Dim ymrwymiad i gynnig y cytundeb**

Ni fydd unrhyw beth yn y GID hwn neu unrhyw gyfathrebu rhwng S4C a'r Tendrwr ynghylch y broses dendro neu'r ymateb tendro yn gyfystyr â chontract i ddarparu unrhyw wasanaeth y rhoddir sylw iddo yn y broses dendro hon, neu warant neu gyflwyniad y bydd unrhyw gontract yn cael ei ddyfarnu neu y gallai unrhyw gontract gael ei ddyfarnu.

Mae S4C yn cadw'r hawl i dynnu yn ôl o a/neu adael a/neu ohirio'r broses dendro hon ar unrhyw adeg, i beidio dyfarnu unrhyw gontract o ganlyniad i'r broses dendro hon, i ychwanegu at, diwygio a/neu egluro amodau a thelerau'r GID hwn a/neu i fynnu bod Tendrwyr yn esbonio eu hymatebion tendro a/neu yn darparu gwybodaeth ychwanegol mewn perthynas ag ef.

**6.2 Gwrthdaro rhwng Buddiannau**

Rhaid i bob Tendrwr ddarparu manylion os rhagwelir y gallai fod gwrthdaro rhwng buddiannau unigolion sy'n ymwneud â'r cais a staff S4C, mae hyn er mwyn galluogi S4C i sicrhau ei fod yn neilltuo staff i'r broses dendro nad oes ganddynt unrhyw berthynas bersonol gydag unrhyw gais.

**6.3 Cytundeb Drafft**

Nodir y cytundeb drafft ar gyfer darparu'r gwasanaethau data gwylio a gwerthfawrogiad y gynulleidfa yn Atodiad 1.

Trwy gyflwyno ymateb i'r GID hwn, mae Tendrwyr yn cyfleu eu bod yn derbyn amodau'r cytundeb drafft sydd ynghlwm. Mae S4C yn cadw'r hawl i ddiwygio'r cytundeb drafft ar ôl ei gyhoeddi, unwaith y bydd manylion y cais buddugol yn hysbys, er mwyn cydymffurfio ag amodau penodol y trefniant y cytunwyd arnynt gyda'r Tendrwr llwyddiannus.

**6.4 Codau Ymarfer a Chanllawiau**

Bydd yn rhaid i'r Tendrwr llwyddiannus gydymffurfio â'r codau ymarfer, y ddeddfwriaeth a'r canllawiau canlynol (ymhlith eraill):

- Deddfwriaeth Iechyd a Diogelwch
- Deddfwriaeth Diogelu Data
- Hysbysiad Cydymffurfio S4C (h.y. yn nodi Safonau'r Gymraeg perthnasol)
- Gofynion Technegol S4C
- Deddfwriaeth gamblo sy'n berthnasol i gystadlaethau a gynhelir
- Polisi Amddiffyn Plant S4C
- Canllawiau Brand S4C
- Ymrwymiad Amrywiaeth S4C

Dylai pob Tendrwr gynnwys y gost o gydymffurfio â'r uchod (gan gynnwys cost cyngor priodol) yn y cais. Mae nifer o'r canllawiau hyn ar gael ar Wefan Cynhyrchu S4C sef http://www.s4c.cymru/cy/cynhyrchu/page/1154/canllawiau/.

**6.5 Rhyddid Gwybodaeth**

Mae'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ("RhG") 2000 yn weithredol i S4C. Os bydd unrhyw Dendrwr o'r farn bod unrhyw wybodaeth a ddarperir ganddo i S4C yn sgil y gwahoddiad hwn, o natur gyfrinachol neu sensitif yn fasnachol, dylai'r Tendrwr nodi hynny yn benodol gan nodi'r rhesymau dros ystyried y fath wybodaeth yn wybodaeth sensitif. Bydd S4C yn ystyried hyn

wrth benderfynu a fydd yn rhyddhau'r wybodaeth wrth ymateb i geisiadau RhG. Fodd bynnag, rhaid i ymgeiswyr dderbyn y bydd S4C yn rhyddhau gwybodaeth o'r fath os bydd yn cael cyngor cyfreithiol bod yn rhaid iddo wneud hynny er mwyn cydymffurfio gyda Deddf RhG. Mae S4C yn cadw'r hawl i benderfynu yn ei ddisgresiwn llwyr os yw unrhyw wybodaeth arbennig wedi ei eithrio rhag ei ddadlenni.

### 6.6 Diogelu Data

Trwy gyflwyno tendr, mae Tendrwyr yn awdurdodi S4C i brosesu'r holl wybodaeth bersonol a ddarparwyd fel rhan o'u cais yn unol â deddfwriaeth diogelu data perthnasol (gan gynnwys Deddf Diogelu Data 1998, Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol ((UE) 2016/679) ac/neu unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol arall) ac maent yn cadarnhau eu bod wedi sicrhau'r holl ganiatâd trydydd parti angenrheidiol er mwyn galluogi S4C i wneud hynny.

### 6.7 Cyfrinachedd a Chyhoeddusrwydd

Trwy gyflwyno ymateb tendro, mae'r Tendrwyr yn cytuno cadw yn gyfrinachol unrhyw wybodaeth a ddatgelir neu a fydd ar gael i'r Tendrwyr gan S4C mewn unrhyw gyfrwng yn ystod neu mewn cysylltiad â'r broses dendro hon. Cytuna Tendrwyr i beidio defnyddio gwybodaeth o'r fath at unrhyw ddiben ac eithrio'r diben o baratoi'r ymateb tendro, ac i beidio datgelu gwybodaeth o'r fath i unrhyw unigolyn arall ac eithrio mewn ffordd gyfrinachol ac ar sail yr angen i'w gwybod, i'r unigolion hynny sy'n ymwneud â'r gwaith o baratoi'r ymateb tendro yn uniongyrchol. Ni fydd yr oblygiadau cyfrinachedd yn berthnasol i wybodaeth sydd eisoes yn gyhoeddus ar yr adeg y caiff ei datgelu.

Trwy gyflwyno ymateb i'r tendr mae Tendrwyr yn cytuno i sicrhau na fydd aelod(au) o'u staff yn gwneud datganiad cyhoeddus o unrhyw fath (gan gynnwys, heb gyfyngiad, drwy safleoedd gwe rhyngweithio cymdeithasol, megis Facebook neu Twitter neu fel arall) yn gysylltiedig â thestun y tendr hwn neu unrhyw benderfyniad S4C ynglylch unrhyw elfen o'r tendr hwn heblaw fod S4C wedi rhoi caniatâd ysgrifenedig o flaen llaw i'r fath gyfathrebiad.

### 6.8 Ymwadiad

Nid yw S4C yn cynnig unrhyw warant neu gyflwyniad ynghylch cyflawnder neu gywirdeb unrhyw wybodaeth yn y GID hwn ac mae unrhyw ddibyniaeth ar wybodaeth o'r fath ar eich risg eich hunain.

### 6.9 Gofynion Brand S4C

Bydd S4C yn caniatáu i'r Tendrwr llwyddiannus ddefnyddio brand S4C yn ystod cyfnod y prif gytundeb yn unol â thelerau cytundeb trwydded brand ar wahân. Bydd gofyn i'r Tendrwr llwyddiannus weithredu yn unol â gofynion Canllawiau Brand S4C sydd ar gael ar wefan S4C.

### 6.10 Costau'r Tendr

Mae pob Tendrwr yn gyfrifol am y costau a'r treuliau sydd yn daladwy mewn cysylltiad â'r broses tendro yma. Ni fydd S4C o dan unrhyw amod yn cyfrannu tuag at y fath gostau a threuliau.

### 6.11 Diwygiadau i Ddogfennau Tendr

Mae S4C yn cadw'r hawl i wneud newidiadau i'r dogfennau tendro cyn y dyddiad cau a nodir yng Ngham 1 4.1 uchod. Er mwyn galluogi ystyriaeth ar gyfer diwygiad o'r fath, gall S4C, yn unol â'i disgresiwn, ymestyn y dyddiadau a nodir yn Rhan 4.1 uchod.

### 6.12 Hawlfraint

Mae S4C yn berchen ar yr hawlfraint yn y GID ac unrhyw ddeunyddiau eraill a gyhoeddir neu a ddarparir gan S4C. Ni chaniateir i Dendrwyr gopïo, atgynhyrchu, defnyddio neu gyhoeddi copïau o'r GID neu ddeunyddiau o'r fath (neu unrhyw ran ohonynt) ac eithrio yn unol â'r graddau sy'n ofynnol er mwyn paratoi a chyflwyno'u hymatebion tendro.

### 6.13 Dim cyd-gynllunio

Drwy gynnig ymateb i'r GID hwn, mae pob Tendrwr yn cadarnhau:

1. bod yr ymateb i dendr yn "bona fide" ac yn gystadleuol;

2. nad yw'r Tendrwr wedi gosod neu newid yr ymateb yn unol ag unrhyw gytundeb neu drefniant gydag unrhyw berson arall (heblaw yng nghyswllt consortiwm, gydag aelodau eraill y consortiwm) nac wedi gofyn i unrhyw Dendrwr arall i wneud yr un peth; ac

3. nad yw'r Tendrwr wedi trafod neu ymgynghori ag unrhyw berson arall heblaw am S4C ynglyn â swm neu fras gyllideb neu bris ei ymateb i'r tendr, heblaw lle roedd y fath drafod neu ymgynghori yn gyfrinachol ac yn angenrheidiol er mwyn gwneud ymholiadau ynghylch premiwm yswiriant neu ddyfynbris ar gyfer paratoi'r ymateb i'r GID.

### 6.14 Ymddygiad Amhriodol

Os yw'r Tendrwr neu'r rheini sydd yn cynghori unrhyw Dendrwr yn gwneud unrhyw ymgais i ddylanwadu yn amhriodol ar y broses dendr hon neu'r penderfyniad i wobrwyo'r cytundeb mewn unrhyw ffordd, yna bydd gan S4C yr hawl i anghymwyso ymateb y Tendrwr yn nisgresiwn llwyr S4C. Os yw'r Tendrwr neu'r rheini sydd yn cynghori unrhyw Dendrwr yn gwneud unrhyw ymgais i ganfasio unrhyw un o weithwyr neu asiantau S4C yn gysylltiedig â'r broses gystadleuol hon neu yn gwneud ymgais i gael gwybodaeth gan unrhyw un o weithwyr neu asiantau S4C ynglŷn ag unrhyw sefydliad arall sydd yn tendro, yna bydd gan S4C yr hawl i anghymwyso ymateb y Tendrwr hwnnw yn nisgresiwn llwyr S4C.

### 6.15 Cyfraith Lywodraethol

Llywodraethir yr GID hwn gan gyfreithiau Cymru a Lloegr ac mae pob Tendrwr yn cytuno, trwy ddychwelyd ymateb tendro, ymrwymo i awdurdodaeth llwyr-gyfyngedig llysoedd Cymru a Lloegr.

**ATODIAD 1**

**CYTUNDEB**

**YN DDAROSTYNGEDIG I GYTUNDEB**

(Gweler y ddogfen ynghlwm)